



Papur briffio tystiolaeth

Economi, sgiliau a seilwaith Cymru

Mae'r papur briffio tystiolaeth hwn yn crynhoi rhai o'r heriau a'r cyfleoedd economaidd allweddol i economi Cymru; ac yn ystyried problemau rydym yn eu disgwyl y bydd Llywodraeth newydd Cymru yn eu hwynebu ar ôl etholiad Senedd 2021. Mae'r papur yn canolbwyntio'n benodol ar berfformiad economaidd Cymru; a'r heriau sy'n gysylltiedig â sgiliau, addysg a hyfforddiant; seilwaith a thrafnidiaeth; caffael; a chefnogaeth fusnes.

Prif negeseuon

- 1 Mae effeithiau cyfunol pandemig y coronafeirws a'r DU yn gadael yr Undeb**
Ewropeaidd yn gwaethygu'r rhagolygon ar gyfer economi Cymru yn sylweddol, ac yn peryglu gwrthdroi'r enillion a wnaed yn ystod y degawd diwethaf. Mae'r ddau ysgytwad economaidd hyn eisoes wedi cynyddu gwendidau economaidd a chymdeithasol, ac maent yn sicr o waethygu'r anghydraddoldebau presennol. Er mwyn lliniaru eu heffeithiau, bydd angen cyfuniad o fuddsoddiad tymor byr ac aillstrwythuro hirdymor yng Nghymru, yn seiliedig ar egwyddorion craidd gwytnwch economaidd, ffyniant a chynwysoldeb.
- 2 Bydd buddsoddi mewn sgiliau ac addysg**, ynghyd â chydweithio cryfach rhwng diwydiant, sefydliadau addysgol a chymunedau lleol, yn ffactorau pwysig wrth gryfhau gallu ymchwil a datblygu Cymru, a pherfformiad economaidd ehangach yn yr hirdymor. Mae sicrhau cronfa o weithwyr medrus, sydd â'r sgiliau ar gyfer marchnad lafur y dyfodol, yn helpu i ddenu buddsoddiad o'r tu allan, yn rhoi hwb i gyflogau a derbyn treth incwm yn y dyfodol.
- 3 Mae angen buddsoddi mewn seilwaith newydd.** Mae'r OECD wedi nodi 'angen dybryd' yng Nghymru i fuddsoddi mewn seilwaith newydd er mwyn gwella cynhyrchiant, cyfleoedd economaidd-gymdeithasol a gwytnwch economaidd. Unwaith y bydd pobl yn dechrau cymudo unwaith eto wrth i'r pandemig leddfu, gallai prosiectau trafnidiaeth gyhoeddus mawr, fel metro gogledd Cymru a de Cymru, chwarae rhan sylweddol wrth sbarduno gweithgarwch economaidd.
- 4 Mae angen cydlynu polisïau ar lywodraethu rhanbarthol, sgiliau a seilwaith.** Mae hyn yn angenrheidiol i symud tuag at economi sy'n cefnogi arloesedd, yn cynyddu cynhyrchiant, yn datblygu busnesau presennol, yn cryfhau'r economi sylfaenol, yn denu buddsoddiad mewnol gwerth uchel, ac yn lleihau anghydraddoldeb incwm trwy greu swyddi o ansawdd uchel, a gwaith teg.
- 5 Mae angen polisïau ar Gymru i gefnogi busnesau** i oroesi yn y tymor byr, ac i annog arloesedd ac ehangu yn y dyfodol.
- 6 Gallai mabwysiadu dulliau mwy strategol a chynaliadwy o gaffael cyhoeddus** gefnogi'r economi genedlaethol a chymunedau lleol, yn benodol trwy sicrhau bod buddsoddwyr mewnol yn buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu sgiliau, ac mewn cadwyni cyflenwi sy'n ychwanegu gwerth yng Nghymru.

Perfformiad economaidd Cymru



Yn ôl safonau rhyngwladol, mae gan y DU lefelau uchel iawn o anghydraddoldeb rhyngranbarthol, ac mae bylchau cynhyrchiant rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau a'r ardaloedd sy'n perfformio waethaf wedi bod yn ehangu ers dechrau'r 1980au. Yn ôl y mwyafrif o fesurau, mae Cymru ymhlith yr isaf o ran safleoedd cynhyrchiant yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU, ac mae ei chyfraddau cyflog hefyd yn is na chyfartaledd y DU.

Cymharol ychydig o wasanaethau cynhyrchiant uchel gwerth uchel sydd gan economi Cymru o gymharu â chyfartaledd y DU, ac mae'n dibynnu i raddau mwy ar wasanaethau cynhyrchiant is, gweithgynhyrchu, twristiaeth ac amaethyddiaeth. Mae ganddi hefyd gyfran gymharol uchel o gwmnïau bach a sgiliau lefel is.

Gellir egluro perfformiad economaidd Cymru i raddau helaeth gan ystod o nodweddion strwythurol pwysig:

- Mae ei phoblogaeth yn hŷn, mewn iechyd gwaeth, ac mae ganddi lefelau is o gyrhaeddiad a sgiliau addysgol na chyfartaledd y DU;
- Mae ganddi sector cyhoeddus mwy;
- Ychydig o ganolfannau economaidd mawr sydd ar gael, ac nid oes ganddynt gysylltiad da â gweddill Cymru na'r DU;
- Mae effeithiau dad-ddiwydiannu ar raddfa fawr a'r symud i ffwrdd o ddiwydiannau traddodiadol yn cael eu teimlo o hyd; ac
- Mae prinder datganoli cyllidol a sylfaen dreth fach, heb lawer o ffynonellau refeniw newydd amlwg.

Mae Brexit a phandemig y coronafeirws yn rhoi pwysau ychwanegol ac, yn y tymor byr o leiaf, byddant yn gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol a'r heriau sy'n wynebu'r boblogaeth oedran gweithio. Mae eu heffeithiau cyfunol yn peryglu gwrthdroi'r enillion economaidd y mae Cymru wedi'u gwneud dros y degawd diwethaf.

Mae ymchwil sy'n dod i'r amlwg wedi dangos bod adeiladu sefydliadau lleol cryfach yn hynod bwysig ar gyfer cyflawni cynhyrchiant a chynwysoldeb

Mae'r ailstrwythuro economaidd sydd ei angen i fynd i'r afael â'r ysgytwadau economaidd hyn yn gyfle i fynd i'r afael â'r heriau strwythurol trwy greu economi fwy gwydn, ffyniannus a chynhwysol yn y dyfodol yng Nghymru sy'n ymateb i'r angen brys i ddatgarboneiddio. Nodweddion allweddol economi o'r fath fydd cynhyrchiant uchel, arloesedd, sector busnesau bach a chanolig cryf, lefelau entrepreneuriaeth llawer uwch, lefel diweithdra isel a llai o anghydraddoldeb incwm.

Fodd bynnag, bydd ysgogi twf cynhyrchiant yn heriol. Gall dulliau traddodiadol, megis canolbwyntio ar gynyddu nifer y swyddi, arwain at roi sylw annigonol i ansawdd y swyddi sy'n cael eu creu, gwaith teg, a phroblem tldi mewn gwaith. Mae angen archwilio dulliau amgen.

Mae ymchwil sy'n dod i'r amlwg wedi dangos bod adeiladu sefydliadau lleol cryfach yn hynod bwysig ar gyfer cyflawni cynhyrchiant a chynwysoldeb. Dyma her benodol yng Nghymru, sydd, yn ôl yr OECD, angen 'dull mwy cydlynol ac ystyriol o ddylunio a chyflawni polisi datblygu rhanbarthol', gyda gallu uwch i lywodraeth leol a chyrff rhanbarthol weithredu polisi. Heb hyn, ni all Cymru wneud y gorau o'i phwerau datganoledig a dylanwadau ei pholisïau.

Mae hefyd angen **cefnogaeth fusnes i liniaru effeithiau Brexit a phandemig y coronafeirws**. Bydd yn bwysig cefnogi sectorau lle mae gan Gymru fantais gystadleuol a/neu'r potensial i greu swyddi da. Dylai cefnogaeth ar gyfer buddsoddiad mewnol dargedu'r sectorau hyn, a dylai fod cefnogaeth i fusnesau sydd wedi tyfu gartref i arloesi a newid eu strategaethau marchnata cynnyrch. Ar gyfer twf busnes, mae **angen y ddwy strategaeth sgiliau ar Gymru i ateb y galw yn y dyfodol, a pholisïau seilwaith trafndiaeth cadarn** (fel y trafodir isod).

Mae'r holl ymyriadau hyn yn fesurau tymor canolig a hirdymor y mae angen eu hystyried fel rhan o strategaeth economaidd gyffredinol Llywodraeth Cymru, a gan awdurdodau lleol sy'n ceisio cefnogi swyddi ac ysgogi twf yn eu heconomiâu lleol.

Sgiliau, addysg a hyfforddiant

Mae gweithlu addysgedig a medrus yn hanfodol ar gyfer perfformiad economaidd a chynhyrchiant. Mae gwella sgiliau yn cefnogi cylch rhinweddol – gan ddenu buddsoddwyr a rhoi hwb i arloesedd ac ymchwil a datblygu.

mae angen polisïau sy'n cefnogi dilyniant gyrfaol y rhai mewn gwaith â chyflog isel, sgiliau isel, y rhai sy'n newydd i'r farchnad lafur, a'r rhai sydd newydd golli eu swyddi

Mae dadansoddwyr yn rhagweld 'pedwerydd chwyldro diwydiannol' lle **bydd defnyddio deallusrwydd artifisial yn fwyfwy eang yn arwain at golli llawer o swyddi presennol y gellir eu hawtomeiddio'n hawdd.** Mae'r effaith ar economïau yn ansicr, ond mae arbenigwyr yn cytuno bod angen i lywodraethau annog pobl i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n anodd eu hawtomeiddio, megis creadigrwydd a'r gallu i feddwl yn feirniadol, a hyrwyddo polisïau sy'n blaenoriaethu'r sgiliau technegol a'r cwricwla STEM cryf sydd eu hangen mewn economi ddigidol. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd buddsoddi'n uwch mewn cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes, hyfforddiant mewn gwaith, ailhyfforddi a dilyniant gyrfaol.

Mae pandemig y coronafeirws wedi rhoi pwyslais pendant ar yr angen i hybu cyfalaf dynol trwy ddatblygu sgiliau a hyfforddiant, sydd wedi gwaethygu'r gwahaniaethau rhanbarthol sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru.

Mae gan rannau llai llewyrchus o'r wlad grynodiadau o swyddi mewn sectorau sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf niweidiol, yn enwedig twristiaeth, manwerthu ac amaethyddiaeth. Bydd ailsgilio yn ymateb pwysig o ganlyniad economaidd i'r pandemig, ac **mae angen polisïau sy'n cefnogi dilyniant gyrfaol y rhai mewn gwaith â chyflog isel, sgiliau isel, y rhai sy'n newydd i'r farchnad lafur, a'r rhai sydd newydd golli eu swyddi.**

Mae dilyniant mewn gwaith a dysgu gydol oes yn hanfodol i sicrhau gweithlu medrus sy'n addas ar gyfer marchnad lafur y dyfodol. Mae colli cyllid yr UE ar gyfer rhaglenni hyfforddi yn golygu y bydd yn bwysig targedu ymyriadau sy'n cael yr effaith fwyaf. Bydd mynd i'r afael â diweithdra rhwng cenedlaethau a chefnogi'r rhai sy'n dal i fod yn bell o fod yn gyflogadwy o fudd i nifer fach o bobl yn unig. **Mae galluogi'r rheini sydd ar hyn o bryd mewn swyddi ansicr â chyflog isel ac sydd â'r risg fwyaf o fynd i mewn ac allan o gyflogaeth i ddatblygu'r sgiliau i symud ymlaen i swyddi o ansawdd uwch** yn ffordd fwy effeithiol o fynd i'r afael â thlodi mewn cartrefi, cefnogi cymunedau lleol, a chryfhau economi Cymru yn ei chyfanrwydd.

Gwyddom fod rhwystrau i ddatblygu mewn swyddi yn cynnwys:

- Y gost i unigolion ar gyflog isel gymryd rhan mewn hyfforddiant;
- Diffyg cymhellion a ddarperir gan reolwyr;
- Diffyg cefnogaeth lles;
- Diffyg cyfleoedd i ddatblygu mewn swyddi mewnol, a strwythurau cyflogaeth gwastad; a
- Gohebiaeth wan rhwng gwelliannau mewn sgiliau a chyflog uwch.

Gall polisïau sy'n mynd i'r afael â'r problemau hyn hwyluso gwell perfformiad economaidd hirdymor, yn enwedig mewn rhanbarthau sydd â chyfraddau twf is. Mae gwella rhagolygon unigolion â sgiliau isel yn un o'r ffyrdd pwysicaf o wella canlyniadau economaidd, ac mae hefyd yn fwy effeithiol na chynyddu cyfran y bobl sydd â lefelau sgiliau uchel iawn yn unig. Ceir tystiolaeth y gall buddsoddi mewn sgiliau ac addysg wella canlyniadau i unigolion, rhanbarthau a chenhedloedd yn yr hirdymor; a'r adnoddau polisi hyn sydd â'r potensial i 'lunio proffil economaidd-gymdeithasol sylfaenol Cymru'. Yn benodol, **mae cysylltiad cryf rhwng buddsoddi mewn addysg gynradd ac uwchradd** â hybu perfformiad economaidd cenhedloedd a rhanbarthau sydd â chynhyrchiant isel.

Mae gan sefydliadau addysgol ran allweddol i'w chwarae fel darparwyr hyfforddiant, ac fel rhan annatod o fywyd cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Maent hefyd yn gyflogwyr mawr mewn sawl rhan o Gymru, ac yn sefydliadau angor pwysig sydd â phŵer prynu sylweddol. **Mae angen i addysg bellach ac uwch ganolbwyntio ar wasanaethu anghenion economi Cymru yn y dyfodol.** Mae'r system addysg ôl-16 (gan gynnwys ysgolion, colegau, prifysgolion a phrentisiaethau) yn hynod bwysig wrth hyfforddi ac uwchsgilio. Mae ein gwaith wedi tynnu sylw at ffyrdd o feithrin hyfforddiant galwedigaethol o ansawdd uchel yng Nghymru, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o adroddiadau ac argymhellion ar y system addysg ôl-orfodol a chymdeithas Cymru wedi'u cyhoeddi. Fodd bynnag, mae gweledigaeth a chynllun strategol ar gyfer system addysg ôl-16 Cymru eto i'w ddatblygu.

Mae angen cynllun strategol ar Gymru i gynyddu cyfraniad dinesig prifysgolion i'r eithaf sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol fathau o sefydliadau, ac yn alinio strwythur a chyllid addysg uwch i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion marchnad lafur y dyfodol.

Mae tystiolaeth o wledydd eraill yn tynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio rhwng diwydiant, cymunedau lleol, prifysgolion a sefydliadau ymchwil wrth gefnogi twf mewn ardaloedd a rhanbarthau sydd wedi'u dad-ddiwydiannu. Gall hyn helpu i sicrhau bod buddsoddi mewn sgiliau yn diwallu anghenion cyflogwyr, yn hybu arloesedd, ac yn cynyddu gwytnwch economïau lleol.

Dros y deng mlynedd nesaf, bydd y math o waith a gyflawnir mewn sectorau â chyflog isel yn newid, a bydd mwy o risgiau o ddadleoli swyddi a chynnydd mewn gwaith ansicr. Mae cynnig dysgu i bobl yn barhaus ar hyd eu bywydau yn hanfodol i'w galluogi i gadw i fyny gyda newidiadau a ffynnu yng ngweithleoedd y dyfodol. Rydym wedi nodi **sectorau allweddol o'r economi sylfaenol lle mae potensial i gefnogi hyfforddiant a allai arwain at well dilyniant gyrfaol.** Byddai hyn, yn ei dro, yn gwella ansawdd swyddi, incwm a lles; ac yn hybu perfformiad economaidd cyffredinol. Mae gwella hyfforddiant a dilyniant gyrfaol hefyd yn allweddol i recriwtio a chadw mewn sectorau allweddol fel gofal cymdeithasol. Mae'n bwysig cyfleu i gyflogwyr y buddion iddynt o gefnogi hyfforddiant mewn gwaith, sy'n cynnwys mwy o gynhyrchiant, a chadw'r gweithlu. Mae tystiolaeth bod undebau llafur yn helpu i feithrin hyfforddiant, yn enwedig mewn sefydliadau sydd â chynrychiolwyr y gweithlu, a bod y trosiant staff is sy'n deillio o hyn o fudd i gyflogwyr.

Seilwaith a thrafnidiaeth



Mae seilwaith trafndiaeth a chysylltedd digidol yn bwysig ar gyfer cefnogi twf busnes a chynhyrchiant llafur , gan fod mw y symudedd yn cefnogi prosesau rhannu a lledaenu gwybodaeth. Mae seilwaith hefyd yn cysylltu lleoedd, ac felly gall wella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth â sgiliau uchel. Mae polisïau seilwaith, yn enwedig polisïau gofodol a thrafnidiaeth sy'n caniatáu i bobl gael mynediad at gyflogaeth, yn ffordd bwysig o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol, trwy estyniad. Mae effeithlonrwydd trafndiaeth gyhoeddus yn bwysig ar gyfer cynhyrchiant llafur mewn ardaloedd trefol: gall trafndiaeth gyhoeddus fwy effeithlon gynyddu poblogaeth effeithiol lle gan fod mwy o bobl yn gallu teithio yno gan fod y tagfeydd sydd fel arfer yn bresennol ar yr oriau brig yn cael eu llyfnhau.

Mae llawer o'r rhai sy'n gweithio mewn sectorau allweddol yn economi Cymru, gan gynnwys lletygarwch, twristiaeth ddomestig a'r sectorau economi sylfaenol, yn dibynnu ar rwydweithiau trafndiaeth gyhoeddus da . Mae mentrau adfywio eisoes ar waith, megis rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, a allai helpu i gefnogi sectorau, yn ogystal â'r dinasoedd, y trefi a'r pentrefi sy'n dibynnu arnynt.

Er bod tystiolaeth yn dangos bod perfformiad ac effeithiolrwydd cwmnïau yn dibynnu ar y seilwaith tir a thrafnidiaeth o'u cwmpas, mae ymchwil yn llai pendant ar yr union berthynas achosol rhwng y ddau.

Yng Nghymru, fel mewn mannau eraill, mae dinasoedd sydd â chysylltiad da yn chwarae rhan bwysig wrth feithrin twf economaidd

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod manteision buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth yn cynnwys dalgylch mwy o weithwyr ar gael, costau cynhyrchu is, ysgogi buddsoddiad mewnol a datgloi tir a oedd yn anhygyrch yn flaenorol. Yng Nghymru, fel mewn mannau eraill, mae **dinasoedd sydd â chysylltiad da yn chwarae rhan bwysig wrth feithrin twf economaidd** trwy 'economiâu cydgrynhoad', lle mae gweithgaredd economaidd wedi'i ganoli mewn ardal benodol. Nod prosiectau fel metro gogledd Cymru a de Cymru yw creu'r manteision hyn.

Mae'r pandemig wedi cynyddu ymwybyddiaeth o **bwysigrwydd technoleg ddigidol**. Gall hybu ffyniant economaidd, gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus a lleihau'r risg o unigrwydd ac ynysu cymdeithasol. Mae'n hanfodol bod buddiannau'r rhai sy'n cael eu gwahardd yn ddigidol oherwydd diffyg mynediad at fand eang cyflym, dyfeisiau a neu sgiliau digidol yn cael eu diogelu.

Ond mae hefyd yn angenrheidiol harneisio'r cyfleoedd y mae technoleg ddigidol yn eu cynnig i wella cynhyrchiant yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. At hynny, mae'r gostyngiad yn lefelau cymudo oherwydd gweithio o bell yn cyfrannu at ddatgarboneiddio economi Cymru.

Gwneir penderfyniadau am ddatblygiadau newydd, megis tai, ysbytai a swyddfeydd, yn aml heb ystyried amcanion economaidd amgylcheddol neu gyfannol. Fodd bynnag, mae **gwneud penderfyniadau mwy integredig yn hanfodol i strategaethau economaidd llwyddiannus**. Enghraifft o wneud penderfyniadau cynllunio integredig effeithiol yw Cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru: Ilif prosiectau 2019, a amlinellodd wariant ar dai, seilwaith trafnidiaeth, seilwaith digidol, cefnogaeth fusnes, ysgolion a cholegau, parciau cenedlaethol, a chyfleusterau cymunedol. Byddai ymdrechion tebyg i fuddsoddi mewn trafnidiaeth mewn ffordd integredig sy'n adlewyrchu nodau eraill, megis lleihau'r defnydd o geir, yn cyflawni amcanion polisi yn fwy effeithiol.

Cefnogaeth fusnes

Mae ymchwil yn dangos bod **perfformiad busnes yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan y graddau y mae gan gwmnïau rwydweithiau cryf â chwmnïau eraill.**

Mae rhwydweithiau busnes yng Nghymru yn gyfyngedig ac nid ydynt yn cefnogi gweithgareddau rhwydweithio yn ddigonol, recriwtio gweithwyr â sgiliau uchel a thwf. At hynny, nid yw rhwydweithiau cydweithio rhwng diwydiant, prifysgolion, sefydliadau ymchwil a chymunedau lleol wedi'u datblygu digon.

Mae ysgytwad economaidd yn gadael busnesau sydd â llai o allu i addasu a gallu arloesol mewn sefyllfa fregus

Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at y ffaith bod diffyg deinameg ac arloesedd yn gweithredu fel cyfyngiad pwysicach, yn hytrach na math neu faint busnes. Ychydig o gwmnïau yng Nghymru sydd â chynllun strategol cynhwysfawr ar gyfer twf ar waith, ac mae gan lawer ohonynt systemau cyfyngedig ar gyfer monitro perfformiad. Mae ysgytwad economaidd yn gadael busnesau sydd â llai o allu i addasu a gallu arloesol mewn sefyllfa fregus.

Mae'n bwysig, felly, meddwl am amcanion unrhyw gefnogaeth a ddarperir i fusnes. Mae rhai ymyriadau wedi'u cynllunio i helpu busnesau i oroesi ysgytwadau economaidd tymor byr.

Nod rhai yw helpu busnes i arloesi neu addasu i amgylchiadau newydd; a gall rhai hwyluso gweithgareddau rhwydweithio a chydweithio mwy effeithiol, i fynd i'r afael â phroblemau o ran cynhyrchiant a pherfformiad. Er bod angen cyfuniad o gefnogaeth tymor byr a hirdymor ar fusnesau yng Nghymru, mae'n bwysig cael y cydbwysedd yn iawn. Mae hyn yn aml yn cynnwys dewisiadau anodd ynghylch y **cyfnewidiadau rhwng cefnogi swyddi presennol a buddsoddi mewn meysydd sydd â photensial cryf ar gyfer twf yn y dyfodol.**

Gallai buddsoddi mewn seilwaith allweddol, gan gynnwys **gweithredu argymhellion yr adolygiad arloesi digidol**, yrru seilwaith o blaid busnes. Mae Strategaeth Ddigidol Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn cynnig llwyfan i wireddu rhai o'r argymhellion hyn. Mae ffyrdd eraill o gefnogi busnes yn cynnwys creu ac ariannu clystyrau arloesi ledled Cymru; datblygu sefydliad Deallusrwydd Artiffisial (AI); llunio fframwaith sgiliau newydd; a chynyddu cyllid i gefnogi meysydd o'r economi sylfaenol, er mwyn gwella seilwaith a sgiliau digidol.

Yn ystod pandemig y coronafeirws, mae **Banc Datblygu Cymru** wedi ymgymryd â rôl ymyrraeth fwy a mwy o ran maint yn y gefnogaeth y mae wedi'i roi i fusnesau. Gellid ymestyn hyn ymhellach i flaenoriaethu ailstrwythuro ac adfywio economi Cymru yn ystod yr adferiad.

Gallai buddsoddiad cynyddol mewn arolygon busnes – tebyg i'r rhai a gynhaliwyd gan y Gronfa Ffederal yn yr Unol Daleithiau – gynnig dealltwriaeth barhaus a mwy cynnil o broblemau a chyfleoedd i fusnesau. Gallai cronfa fenter newydd, gyda chefnogaeth y llywodraeth, wedi'i hymgorffori yng Nghymru, sy'n cael ei chynnal gan arbenigwyr, ac sy'n cwmpasu rhwydwaith o fentrau craff a chefnogaeth fusnes, helpu cwmnïau o Gymru i gyrraedd y lefel nesaf; ac annog pobl i sefydlu busnesau newydd. Gan fod entrepreneuriaeth ac arloesedd yn flaenoriaethau allweddol i fusnesau yng Nghymru, yn enwedig i gwmnïau bach a micro, byddai cefnogaeth wedi'i thargedu i ddeall a chymhwyso prosesau sefydliadol newydd yn fuddiol.

Gall yr **economi sylfaenol** – gan gynnwys sectorau fel cyfleustodau, bwyd, bancio, trafnidiaeth, telathrebu, rhannau o fanwerthu, a gwasanaethau cyhoeddus (megis addysg, iechyd a gofal cymdeithasol) – fod yn fwy gwydn i ysgytwad economaidd na sectorau eraill. Ond, yn aml, nid oes gan fusnesau yn y meysydd hyn y rhwydweithiau, ansawdd swyddi ac arloesedd sy'n sail i economiâu gwydn, ac maent yn aml yn dibynnu ar swyddi rhan-amser, achlysurol a dros dro, y mae menywod fel arfer yn eu cyflawni. Mae cyllid a ffocws strategol Llywodraeth Cymru, o ran yr economi sylfaenol, wedi bod ar wella arloesedd a gwaith teg; ac mae'r Sefydliad Materion Cymreig yn cynnal prosiect ymchwil ar sut y gellir cryfhau'r economi sylfaenol dros yr hirdymor. Mae'r OECD, fodd bynnag, yn tynnu sylw at yr heriau y mae poblogaeth sy'n heneiddio, a sylfaen dreth sy'n crebachu, yn eu cyflwyno i sicrhau economi sylfaenol fwy llewyrchus.



Caffael

Ers 2018, mae'r WCPP wedi bod yn dadlau dros ddull mwy **strategol o gaffael cyhoeddus**. Mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario oddeutu **£6 biliwn bob blwyddyn** ar nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae hyn yn cynrychioli bron i draean o gyfanswm y gwariant datganoledig, ac mae gan y prosesau caffael sy'n sail i'r gwariant hwn y potensial i ddatblygu rhagor o fuddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol.

Mae tystiolaeth yn awgrymu y **gellir cefnogi busnesau Cymru trwy strategaethau caffael**, a thrwy annog busnesau bach a chanolig i gystadlu am gynigion. Gall gwell gwybodaeth ac ymestyn cyrhaeddiad negeseuon am gynigion helpu i feithrin economïau lleol.

Mae **dull strategol a chynaliadwy o gaffael cyhoeddus**, sy'n cynnwys sicrhau buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i gymunedau, hefyd yn helpu i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a gallai roi hwb i fusnesau bach a chanolig, a'r economi sylfaenol.

Mae adolygiad caffael 2018 Llywodraeth Cymru yn nodi'r heriau a'r cyfyngiadau sy'n wynebu proffesiwn caffael Cymru; ac mae Penaethiaid Rhwydwaith Caffael Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi egwyddorion i ategu **dull cydweithredol o gaffael**.

Bydd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol (Cymru) sydd ar ddod yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gael strategaeth gaffael i annog dulliau mwy tryloyw, cydgysylltiedig a chynaliadwy.

Mae ein hymchwil wedi dangos bod ewyllys cyfunol yng Nghymru i ddefnyddio caffael i hyrwyddo gwell canlyniadau economaidd a chymdeithasol

Mae **adolygiad cynnydd 2020 yn** nodi'r heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy, ac y bydd yr heriau hyn yn cael eu gwaethygu gan unrhyw addasiadau angenrheidiol ar ôl Brexit.

Mae ein hymchwil wedi dangos bod ewyllys cyfunol yng Nghymru i ddefnyddio caffael i hyrwyddo gwell canlyniadau economaidd a chymdeithasol, ond bod angen i gyrff cyhoeddus oresgyn cyfres o heriau ymarferol. I'r perwyl hwn, mae angen i Gymru ddatblygu a grymuso **cnewyllyn o weithwyr proffesiynol caffael uwch; codi ymwybyddiaeth ymhlith arweinwyr gwleidyddol lleol a chyfarwyddwyr cyllid o fuddion strategol caffael gwell; a hyrwyddo arloesedd ac arfer da presennol.**

Awduron yr adroddiad

Mae Dr Helen Tilley yn Uwch-gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae Dr Craig Johnson yn Gydymaith Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Gellir cyrchu holl ymchwil WCPP ar economi Cymru [yma](#).



Amdanom ni

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisiau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion Llywodraeth Cymru ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at a defnyddio tystiolaeth annibynnol drylwyr ynghylch yr hyn sy'n gweithio. Mae'r Ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae gofyn cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol i'r Llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisiau ac ymarferwyr ar lefel genedlaethol a lleol i ddatblygu syniadau o'r newydd am sut i fynd i'r afael â rhai o'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol sy'n wynebu Cymru.

Mae gwaith y Ganolfan yn cwmpasu ystod eang o bolisiau, ond ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol
- Iechyd a gofal cymdeithasol oedolion
- Llywodraethu a gweithredu effeithiol
- Hyrwyddo cydraddoldeb
- Economi a sgiliau
- Plant sy'n derbyn gofal

I gael rhagor o wybodaeth ac i lawrlwytho ein hadroddiadau a'n sesiynau briffio polisi ar y pynciau hyn a phynciau eraill, ewch i www.wcppp.org.uk.



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa
Caerdydd CF10 3BG



www.wcppp.org.uk



029 2087 5345



info@wcppp.org.uk



@WCfPP



Economic
and Social
Research Council



Llywodraeth Cymru
Welsh Government